# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 3

GWEITHREDU CWRICWLWM

*Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir*

PROSPECTIVE

### 30 Gofynion gweithredu pellach ar gyfer disgyblion 14 i 16 oed

(1) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig yn unol ag is-adran (2) i ddisgyblion sydd wedi cwblhau'r flwyddyn ysgol y cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dosbarth 14 oed ynddi.

(2) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig mewn ffordd—

- (a) sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob disgybl sy'n cwmpasu'r elfennau mandadol o fewn y meysydd dysgu a phrofiad, a
- (b) sy'n sicrhau addysgu a dysgu arall i bob disgybl ym mhob maes dysgu a phrofiad.

(3) Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicrheir o dan is-adran (2) ddatblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.

(4) Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicrheir o dan is-adran (2) gynnwys—

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 30 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(a) addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth a wneir yn y cwricwlwm, i'r graddau y mae'n gymwys i'r disgybl, yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan adran 25, a

(b) yr addysgu a dysgu a ddewisir gan y disgybl yn rhinwedd adran 24.

(5) Am eithriad i'r ddyletswydd i sicrhau'r addysgu a dysgu a ddewisir gan y disgybl, gweler adran 31.

(6) Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicrheir o dan is-adran (2)—

(a) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, fod yn addas ar gyfer cyfnod datblygu'r disgybl, a

(b) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gyd-fynd â Rhan 2 o Atodlen 1.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 30 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 30 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– s. 30 coming into force by S.I. 2022/652 art. 8(a)
– s. 30 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(a)